

Rheolwr Partneriaethau Corfforaethol (Swydd Lawrydd)

Ffi'r Contract: Cyfanswm o £4,000 (£250 y dydd × 16 diwrnod) + TAW os yw'n berthnasol

Dyddiau Gwaith: 16 diwrnod i gyd, wedi'u gweithio'n hyblyg dros gyfnod y contract (gall gynnwys rhywfaint o waith ar benwythnos a gyda'r nos)

Cyfnod: Disgwylir i'r contract 16 diwrnod cychwynnol ddechrau ddiwedd mis Tachwedd 2026 a dod i ben erbyn 31 Mawrth 2027, gyda'r potensial am waith pellach yn 2027-28.

Man gweithio: O bell neu'n hybrid. Cyfarfodydd achlysurol yn Chapter, Caerdydd, yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

Yn adrodd i: Cyfarwyddwr Gŵyl

Gwnewch gais erbyn: Dydd Gwener, 6 Tachwedd

Cyfweliadau: Dydd Gwener i ddydd Mawrth, 13-17 Tachwedd

Canlyniad: Dydd Gwener, 20 Tachwedd

Dyddiad cychwyn arfaethedig: Rhwng 26 a 30 Tachwedd

I wneud cais, anfonwch eich CV ynghyd â neges e-bost eglurhaol i festival@cardiffanimation.com. Yn eich neges e-bost eglurhaol dylech amlinellu'n fyr eich profiad o sicrhau nawdd neu bartneriaethau masnachol, gan gynnwys enghreifftiau o bartneriaethau llwyddiannus rydych chi wedi'u datblygu.

GŴYL ANIMEIDDIO CAERDYDD

Gŵyl Animeiddio Caerdydd yw gŵyl animeiddio fwyaf Cymru, sy'n dod â chynulleidfaoedd, artistiaid a'r diwydiant ynghyd i ddathlu animeiddio ym mhob ffurf.

Drwy ein gŵyl bedwar diwrnod flynyddol a'n rhaglen o ddangosiadau, sgysiau, gweithdai, dosbarthiadau meistr a digwyddiadau arbennig sy'n digwydd drwy gydol y flwyddyn, rydyn ni'n cael dros 10,000 o geisiadau'r flwyddyn, gan hyrwyddo animeiddio fel ffurf ar gelfyddyd, cefnogi doniau creadigol, a helpu i roi Cymru ar y map fel cyrchfan ar gyfer y diwydiannau sgrin.

Wrth i Wyl Animeiddio Caerdydd barhau i dyfu, rydyn ni'n awyddus i feithrin partneriaethau creadigol, uchelgeisiol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr gyda sefydliadau sy'n rhannu ein gwerthoedd ac sydd am fod yn rhan o ddyfodol yr ŵyl.

Rydyn ni'n chwilio am Reolwr Partneriaethau Corfforaethol profiadol a brwdfrydig i'n helpu i ddatblygu cyfleoedd nawdd newydd, cryfhau ein cysylltiadau presennol, ac adeiladu sylfaen gynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Prif ddiben y swydd

Prif ddiben y swydd yw creu cyfleoedd nawdd ac incwm newydd ar gyfer Gŵyl Animeiddio Caerdydd drwy ganfod a sicrhau partneriaid corfforaethol newydd.

Bydd y Rheolwr Partneriaethau Corfforaethol, drwy weithio'n agos gyda Chyfarwyddwr yr Ŵyl a'r Cyfarwyddwr Datblygu, yn datblygu deunyddiau a chysylltiadau nawdd presennol Gŵyl Animeiddio Caerdydd, gan adolygu ein pecynnau nawdd cyfredol a nodi cyfleoedd i gryfhau ein cynnig i ddarpar bartneriaid.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn hyderus wrth weithio'n annibynnol i ymchwilio i noddwyr posib, dod i gysylltiad â nhw, cyflwyno cyfleoedd, negodi cytundebau a sicrhau ymrwymadau ariannol. Byddan nhw'n gweithio tuag at sicrhau o leiaf dair partneriaeth gorfforaethol newydd ar gyfer Gŵyl Animeiddio Caerdydd 2027 a thu hwnt, gan weithio tuag at dargedau incwm a gytunwyd ar ddechrau'r contract, a chyfrannu at gynaliadwyedd ariannol hirdymor yr ŵyl.

Mae'r swydd hefyd yn cynnwys datblygu'r cysylltiadau nawdd presennol, gyda chefnogaeth gan Gyfarwyddwr yr Ŵyl a'r Cyfarwyddwr Datblygu.

Mae gofynion y swydd yn cynnwys:

- Adolygu lefelau nawdd, buddion a phrisiau presennol Gŵyl Animeiddio Caerdydd, ac argymhell gwelliannau i gryfhau ein cynnig masnachol;
- Ymchwilio a chanfod noddwyr a phartneriaid corfforaethol posib sy'n cyd-fynd â gwerthoedd a chynulleidfaoedd Gŵyl Animeiddio Caerdydd;
- Datblygu cynigion nawdd cymhellol a phecynnau partneriaeth sydd wedi'u teilwra;
- Mynd ati'n rhagweithiol i gysylltu â darpar noddwyr a phartneriaid, trefnu cyfarfodydd a negodi cytundebau;
- Rheoli a meithrin cysylltiadau presennol â phartneriaid corfforaethol, gan gynnwys gweithio gyda thîm yr ŵyl i sicrhau bod y manteision y cytunwyd arnyn nhw'n cael eu cyflawni;
- Gweithio gyda Chyfarwyddwr yr Ŵyl a'r Cyfarwyddwr Datblygu i ddatblygu strategaeth nawdd gynaliadwy ar gyfer 2027 a gwyliau yn y dyfodol;
- Cynnal cofnodion cywir o ddarpar noddwyr, sgysrsiau, cytundebau a rhagolygon incwm;
- Cynrychioli Gŵyl Animeiddio Caerdydd mewn cyfarfodydd a digwyddiadau noddwyr;
- Cynorthwyo Cyfarwyddwr yr Ŵyl a'r Cyfarwyddwr Datblygu i gynnal diwydrwydd dyladwy priodol ar ddarpar noddwyr er mwyn sicrhau bod partneriaethau'n cyd-fynd â gwerthoedd ac ymrwymadau moesegol Gŵyl Animeiddio Caerdydd, a thynnu sylw at unrhyw bryderon posib ynghylch enw da neu foesoldeb;
- Adrodd yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt.

Manyleb yr Unigolyn

Rydyn ni'n chwilio am unigolyn rhagweithiol a pherswadiol sydd â meddwl masnachol, ac sydd â hanes profedig o sicrhau incwm nawdd neu lunio partneriaethau masnachol. Byddwch yn

hyderus wrth gysylltu â sefydliadau newydd, meithrin cysylltiadau â phenderfynwyr a chyfleu gwerth ein cyfleoedd partneriaeth.

Byddwch chi'n gyfforddus yn gweithio'n annibynnol, yn rheoli eich llinell waith eich hun ac yn manteisio ar gyfleoedd o ymchwil gychwynnol ac allgymorth hyd at sicrhau cytundebau.

Sgiliau Hanfodol

- O leiaf dwy flynedd o brofiad ym maes partneriaethau corfforaethol, nawdd, datblygu busnes neu godi arian, yn ddelfrydol yn y maes celfyddydau, diwylliant, digwyddiadau neu'r diwydiannau creadigol;
- Gallu profedig i gynhyrchu cysylltiadau'n rhagweithiol, cyflwyno cynigion i noddwyr posib a throsi cyfleoedd yn incwm sydd wedi'i sicrhau;
- Dealltwriaeth o weithio gyda noddwyr a'u gofynion;
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol;
- Profiad o ddatblygu a chynnal cysylltiadau allanol;
- Gweithio i derfynau amser a rhoi sylw craff i fanylion;
- Sgiliau rhyngpersonol a datrys problemau;
- Hyder wrth reoli cyfrifon, wrth drafod ag unigolion ar wahanol lefelau.

Sgiliau Dymunol

- Profiad o gynhyrchu a chwblhau strategaethau codi arian nawdd;
- Diddordeb mewn animeiddio fel ffurf ar gelfyddyd